Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 1 Chwefror 2016
Ein cyf: HVT/HVT2481/fgb


Annwyl Darren

**BUDDSODDIAD LLYWODRAETH CYMRU YN SEILWAITH BAND EANG Y GENHEDLAETH NESAF - YMATEB LLYWODRAETH CYMRU**

Gofynnai llythyr y Dirprwy Glerc, dyddiedig 25 Ionawr, am fy nghyngor ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn derbyn naw allan o 10 argymhelliad y Pwyllgor, gyda'r argymhelliad sy'n weddill wedi ei dderbyn yn rhannol. Rwyf yn tynnu sylw isod at rai meysydd lle y bydd y Pwyllgor efallai yn dymuno gofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad.

**Argymhelliad 1:** Yn rhannol y mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, gan adlewyrchu'r ffaith fod y cyfnodau amser, ar gyfer gosod mewn rhai adeiladau yn y prosiect gwreiddiol, wedi newid yn dilyn rhoi estyniad i'r prosiect, sydd wedi arwain at gynllun gosod newydd. Efallai ei bod yn ymddangos yn rhesymol nad gadael yr holl adeiladau newydd tan ddiwedd y prosiect fyddai'r dull gosod mwyaf effeithlon. Fodd bynnag, a derbyn pryderon y Pwyllgor ynghylch effaith ymestyn y prosiect, gallai'r ymateb fod wedi bod o gymorth drwy ddweud faint o adeiladau y mae'r newidiadau i'r rhaglen osod yn effeithio arnynt. Gallai hefyd fod wedi dweud i ba raddau y mae'r adeiladau hyn wedi eu clystyru mewn ardaloedd neilltuol, a sut y mae unrhyw oedi cyn gosod yn cael ei gyfleu i'r bobl y bydd hynny'n effeithio arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud, pe na bai wedi mabwysiadu'r dull o 'doddi' adeiladau newydd i mewn i'r cytundeb gwreiddiol, y gallai ail drafod telerau'r contract fod wedi arwain at sefyllfa lai ffafriol i Lywodraeth Cymru. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru pam y mae'n teimlo y byddai wedi bod mewn sefyllfa wannach i drafod na phan osododd y contract gwreiddiol.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost huw.vaughan.thomas@archwilio.cymru

**Argymhelliad 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ac fe lansiodd Gynllun newydd Allwedd Band Eang Cymru ym mis Ionawr 2016. Fodd bynnag, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael eglurhad gan Lywodraeth Cymru beth fydd cyfraniad y cynllun o ran sicrhau mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf i'r holl adeiladau sy'n gymwys. Dengys ymateb Llywodraeth Cymru fod peth o'r cyllid ar gael ar gyfer cyflymderau rhwng 10 ac 20 Mbps. I'r adeiladau fydd yn derbyn mynediad drwy brosiect Superfast Cymru mae band eang y genhedlaeth nesaf yn golygu cyflymder dros 24 Mbps.

Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno cael syniad gan Llywodraeth Cymru o gost bosibl gosod band eang y genhedlaeth nesaf i drigolion neu fusnesau mewn adeiladau anodd eu cyrraedd (uwchlaw gwerth y talebau a gynigir).

**Argymhelliad 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn, er y bydd y Pwyllgor efallai yn dymuno ystyried a yw lefel y manylder a ddarparwyd gymaint ag y disgwyliai. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi rhoi manylion mwy penodol ynghylch y ffordd y mae wedi ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd, ac a wnaeth yr ymgysylltiad hwnnw arwain at nodi'r adeiladau anodd eu cyrraedd, a allai elwa o gynllun newydd Allwedd Band Eang Cymru.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am lefel debygol y gronfa fuddsoddi y mae Llywodraeth Cymru yn dweud fydd yn cynnal y cynllun newydd. Rwyf yn cymryd mai'r mecanwaith adfachu yw'r trefniant y cyfeiriais ato yn fy adroddiad, sef, os bydd y nifer sy'n defnyddio band eang y genhedlaeth nesaf yn ardal ymyrryd Superfast Cymru yn fwy na 21 y cant yn ystod oes contract Superfast Cymru hyd ddiwedd 2023, y bydd BT yn dosbarthu 50 y cant o'i elw, ar ei wasanaethau cyfanwerthu mewn perthynas â'r ardal ymyrryd, yn ôl i Lywodraeth Cymru. Bydd y swm a gaiff ei adfachu felly'n dibynnu ar lefel y defnydd.

**Argymhelliad 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru am fwy o fanylion ynghylch y cais am gyllid WEFO dan raglen newydd y cronfeydd strwythurol, gan gynnwys gwerth y cyllid ac ar gyfer beth y mae wedi ei fwriadu. Mae'n aneglur a yw hyn yn ymwneud â'r cais a ddisgrifiwyd yn fy adroddiad i gefnogi gweithgarwch ymelwa. Mae ymateb Llywodraeth Cymru fel arall yn awgrymu bod y cyllid hwn ar gyfer cynorthwyo i gwblhau prosiect Superfast Cymru.

Nodaf fod yr ymateb i'r argymhelliad hwn yn datgan bod Superfast Cymru wedi bod yn llwyddiant digymysg. Cyfeiriai fy adroddiad at y cynnydd rhesymol oedd yn cael ei wneud, dull caffael effeithiol contract Superfast Cymru yn gyffredinol, a rhai o'r buddion ehangach oedd wedi deillio o'r contract. Er hynny, mae'n amlwg bod lle i wella ar rai agweddau ar y lledaeniad, yn enwedig gyda golwg ar gyfathrebu. At hynny, mae gwerth

am arian prosiect Superfast Cymru yn y pen draw yn dibynnu ar y graddau y defnyddir band eang y genhedlaeth nesaf ac y gwneir yn fawr o'i fanteision.

**Argymhelliad 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn, er y byddai awgrym o'r cyfnodau amser a fwriadwyd ar gyfer y camau gweithredu cysylltiedig wedi bod o fudd.

**Argymhelliad 8:** Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac mae'n tynnu sylw at newidiadau a wnaed yng ngwefan Superfast Cymru i wella'r wybodaeth a roddir i ymwelwyr â'r wefan. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymweld â'r wefan eto ac yn ystyried bod y wybodaeth sydd ar gael yn edrych fel pe bai wedi ei gwella'n sylweddol.

Dywed Llywodraeth Cymru fod llwyddiant hysbysebu a digwyddiadau yn dod yn amlwg drwy'r niferoedd o ymwelwyr â'r wefan a chofrestriadau ar-lein; fodd bynnag, nid yw nifer y trawiadau rhyngrwyd ynddo'i hun yn awgrymu llwyddiant. Argymhellai fy adroddiad edrych i weld a yw busnesau a thrigolion yn fodlon ar lefel y wybodaeth y maent yn ei derbyn ac efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno holi a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw beth yn y cyfeiriad hwnnw, yn enwedig o ystyried y newidiadau diweddar yn y wefan. Fel arall, gallai'r Pwyllgor newydd fynd i'r afael â'r mater hwn pan fydd yn ystyried y diweddariad a addawyd mewn ymateb i Argymhelliad 4 yn adroddiad y Pwyllgor. Dylai hwn gynnwys diweddariad ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i fy argymhellion i fy hun.

Rwyf yn deall bod y clercod yn disgwyl derbyn diweddariad ar wahân gan BT am y cynnydd dros y misoedd diwethaf ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i roi diweddariad ar nifer o faterion erbyn mis Medi 2016. Hwyrach y bydd y Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at y pwnc hwn yn ei adroddiad etifeddiaeth arfaethedig ac efallai y bydd o werth i'r Pwyllgor newydd gasglu rhagor o dystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru a BT ar sail y diweddariad hwnnw. Pan fyddaf yn ystyried y sefyllfa yr adroddir amdani wrth y Pwyllgor newydd yn Hydref 2016, byddaf hefyd yn ystyried a oes achos i wneud gwaith dilynol, gan ganolbwyntio’n benodol ar ledaeniad prosiect Superfast Cymru neu ar ymelwa'n ehangach ar fanteision mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**